RHIFYN
EDITION
60
08.01.24

Llais Llantrisant

DYDDIADAU'R TYMOR
TERM DATES

Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn eleni fydd 22.03.24 am 3:30 yp. Bydd y plant yn dychwelyd ar gyfer Tymor yr Haf ar 09.04.24. Diwrnod ola'r flwyddyn yw 19.07.24.

Cofiwch ymweld â chalendr gwefan yr ysgol yn rheolaidd i wirio dyddiadau.

The last day of the Spring Term this year is on 22.03.24 at 3:30 pm. The children return for the Summer Term on 09.04.24. The last day of the year is 19.07.24.

Remember to visit the school website calendar regularly to check dates.

HMS 2023-2024
INSET 2023-2024

Eleni, bydd pob ysgol yng Nghymru yn cau am 6 diwrnod HMS.

This year, every school in Wales will close for 6 INSET days.

04.09.23	27.10.23	08.01.24
09.02.24	08.04.24	22.07.24

AMSEROEDD YSGOL
SCHOOL TIMES

Hoffem atgoffa pawb fod clwydi'r ysgol ar agor am 8:50 yb ac yn cael eu cloi am 9:00 yb fel bod y plant yn gallu dechrau yn syth ar weithgareddau'r dydd. Gwerthfawrogir petai pawb yn gwneud ymdrech i sicrhau fod y plant yn cyrraedd ar amser, os gwelwch yn dda.

We should like to remind everyone that the school gates are opened at 8:50 am each morning and are locked at 9:00 am to ensure that everyone is in class, on time and ready for the day's learning. It would be much appreciated if you could ensure that the children arrive on time, please.





DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

08.02.24 - Plant yn gorffen - gwyliau Hanner Tymor
Children finish - Half Term break
09.02.24 - HMS
INSET
18.03.24 - Cyfarfod Cynnydd #1 / *Progress Meeting #1*
19.03.24 - Cyfarfod Cynnydd #2 / *Progress Meeting #2*
22.03.24 - Plant yn gorffen ar gyfer gwyliau'r Pasg
Children finish for the Easter break
09.04.24 - Plant yn dychwelyd - Tymor yr Haf
Children return - Summer Term

BLWYDDYN NEWYDD DDA! *HAPPY NEW YEAR!*

Croeso nôl - gobeithio fod pawb wedi cael cyfle i ymlacio a llwyr fwynhau gwyliau'r Nadolig.

Welcome back - we hope that everyone had chance to relax and thoroughly enjoy the Christmas break.

PRESENOLDEB A SALWCH *ATTENDANCE AND ILLNESS*

Mae canran presenoldeb yr ysgol yn arbennig o dda. Gofynnir yn garedig i rieni sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon bob bore erbyn 9:00 y.b. Os bydd plentyn yn dost neu ag apwyntiad meddygol, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol trwy alwad ffôn neu lythyr diwrnod cyntaf yr absenoldeb a phob diwrnod arall o absenoldeb yn dilyn hyn os gwelwch yn dda. Os bydd apwyntiad meddygol gan blentyn, mae angen i Swyddfa'r Ysgol weld cerdyn / llythyr er mwyn bwydo hyn i mewn i system cofrestru'r ysgol. Gofynnir i bob rhiant anfon taflen TREFNIADAU DIWEDD Y DYDD at athrawon eu plant bob dydd Llun os gwelwch yn dda. Os bydd trefniadau yn aros yr un peth am y tymor, cwblhewch un daflen a nodwch hyn arni os gwelwch yn dda. Yn dilyn achosion o ddolur rhydd neu salwch, gofynnir i'r plant aros gartref am gyfnod o 48 awr yn unol â chanllawiau GIG Cymru a pholisi'r ysgol, os gwelwch yn dda.

The school's attendance percentages are extremely good. Parents are kindly asked to make every effort in ensuring their children attend school regularly and promptly by 9:00 a.m. each morning. If a pupil is ill, or has a medical appointment, you are asked to contact the school by telephone call or letter to inform us on the first day of absence and each day following this until return to school, please. If a child has a medical appointment, please provide the School Office with the appointment card / letter so this can be entered into the school's registration system. Also, all parents are kindly asked to complete and return to school an END OF DAY ARRANGEMENTS sheet on Monday mornings please. If arrangements are likely to remain the same for the term, please state this on the form and send only one form at the beginning of the term for your convenience.

Following any case of diarrhoea or vomiting, all children are required to remain at home for a period of 48 hours in line with NHS Wales guidance and school policy, please.

CADW MEWN CYSYLLTIAD *KEEPING IN CONTACT*

Os oes angen cysylltu â'r athrawon dosbarth yn uniongyrchol, cofiwch fod modd defnyddio'r cyfeiriadau ebost ffurf-fer isod:

Should you need to contact the class teachers directly, remember you are able to use the email addresses below:

Dosbarth 1 1d5@hwbcymru.net	**Dosbarth 2** 2d5@hwbcymru.net	**Dosbarth 3** 3d5@hwbcymru.net	**Dosbarth 4** 4d5@hwbcymru.net
Dosbarth 5 5d5@hwbcymru.net	**Dosbarth 6** 6d5@hwbcymru.net	**Dosbarth 7** 7d5@hwbcymru.net	**Dosbarth 8** 8d5@hwbcymru.net
Ysgol / *School* admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru			

GWEFAN YR YSGOL *THE SCHOOL WEBSITE*

Yn anffodus, nid yw gwefan yr ysgol yn gweithio ar hyn o bryd felly gofynnir yn garedig i bawb fonitro cyfrifon e-bost er mwyn derbyn negeseuon / llythyron pwysig.

Unfortunately, the school website is currently down so, in the meantime, everyone is kindly asked to monitor email accounts to ensure important messages / letters are received.

CYSYLLTU Â CHI
CONTACTING YOU



Cofiwch fwrw golwg rheolaidd ar APP yr ysgol a'ch cyfrif ebost i sicrhau nad ydych yn colli negeseuon pwysig. Edrychwch ar wefan yr ysgol a'r calendr bob wythnos. Os ydych chi'n amau nad ydych yn derbyn gohebiaeth bwysig, cysylltwch â ni.

Remember to regularly look at the school APP and your emails to make sure you aren't missing any important messages. Have a look at the school website and the calendar each week. If you doubt that you are receiving important correspondence, contact us.

CYFARFODYDD CYNNYDD
PROGRESS MEETINGS

Cynhelir Cyfarfodydd Cynnydd Tymor y Gwanwyn i chi drafod cynnydd eich plant gyda'r athrawon ar 18.03.24 a 19.03.24 yn dechrau am 3:50 yp. Cewch ragor o wybodaeth yn nes at y dyddiadau hyn ynghylch y system apwyntiadau.

Our Spring Term Progress Meetings to discuss your children's progress with the teachers will be held on 18.03.24 and 19.03.24 starting at 3:50 pm. Further information regarding the online booking system will be provided closer to the date.



GYRRU A PHARCIO
DRIVING AND PARKING

Unwaith eto, hoffem ddiolch i bawb am yrru a pharcio o gwmpas safle'r ysgol mewn modd ystyriol. Siomedig iawn oedd clywed cyn gwyliau'r Nadolig bod swyddogion traffig / parcio y Sir a Gofalwr yr ysgol yn cael eu herio tra'n gofyn bod rheolau parcio yng nghefn yr ysgol yn cael eu parchu er diogelwch y disgyblion sydd yn cyrraedd a gadael y safle.

Once again, we should like to thank everyone for driving and parking around the school site in a considerate manner. It was very disappointing to hear before the Christmas break that the local traffic/parking officers and the school's Caretaker were being challenged when asking that parking rules at the rear of the school be respected for the safety of the pupils arriving and leaving the site.

Cofiwch ymweld â / *Remember to visit:* **www.yggglantrisant.com**

ALERGEDDAU A BWYD *ALLERGIES AND FOOD*



Gyda nifer o blant newydd yn ymuno â ni y tymor hwn, mae'n syniad i ni atgoffa pawb o'r wybodaeth hon. Mae nifer o blant yn yr ysgol ar hyn o bryd sydd ag alergeddau difrifol at rai fwydydd. Mae hyn yn cynnwys cnau: cnau daear, menyn pysgnau, pecanau, cnau Ffrengig, olew cnau a chyflasynnau cnau. Gallai cyffwrdd neu fwyta rhai o'r eitemau hyn achosi adwaith difrifol. Er mwyn diogelwch y disgyblion hyn, gofynnir yn garedig unwaith eto i rieni osgoi anfon bwydydd sy'n cynnwys cnau i'r ysgol ar gyfer ciniawau pecyn a byrbrydau amser chwarae, os gwelwch yn dda. Mae hyn yn cynnwys bwydydd fel 'Nutella'. Hefyd, cofiwch dorri grawnwin, llus, tomatos bach ac ati yn eu hanner ar eu hyd, os gwelwch yn dda, gan fod plant yn gallu tagu'n hawdd ar y ffrwythau hyn. Diolch yn fawr ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

With a number of new children joining us this term, it's appropriate that we remind everyone of the following information. Currently, there are a number of children in school who have a severe, life-threatening allergy to various food products. This includes nuts: peanuts, peanut butter, pecans, walnuts, nut oils and nut flavourings etc. Touching or eating these items may provoke a severe allergic reaction. For the safety of these pupils, we once again kindly ask that parents do not send any food containing these items to school for a snack or in packed lunches. This also includes foodstuffs such as 'Nutella'. Also, please remember to cut grapes, blueberries, small tomatoes etc. in half, lengthwavs as children can quite easily choke on these fruits. Thank you in advance for your co-operation.





MEDDYGINIAETH *MEDICINES*

Os oes angen meddyginiaeth ar eich plentyn, mae modd i'r moddion gael ei weinydd gyda'ch caniatâd chi ac ewyllys da y staff. Nid oes hawl gan unrhywun i weinyddu moddion heb i riant gwblhau'r ffurflen berthnasol. Cewch ddod o hyd i'r ffurflen berthnasol fan hyn neu drwy ebostio swyddfa'r ysgol er mwyn derbyn dolen ar gyfer y ffurflen. Dylech wneud y trefniadau hyn cyn i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol. Ebostiwch athro / athrawes eich plentyn i wneud y trefniadau hyn, os gwelwch yn dda.

If your child needs to take medicine, it is possible for a member of staff to administer this with your consent and the staff's good will. No member of staff is able to carry this out without the relevant form being completed by a parent. You can find this form here or by emailing the school office to rerquest the form link. These arrangements should be made prior to any child returning to school. Please email your class teacher to make these arrangements.

GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL *EXTRA-CURRICULAR ACTIVITIES*

Bydd ein clybiau all-gyrsiol yn ail-ddechrau yn ystod yr wythnos yn dechrau 15.01.24. Ceir rhagor o fanylion ar galendr gwefan yr ysgol.

Our extra-curricular clubs will start again during the week beginning 15.01.24. More details can be found on the school website calendar.

Clwb Chwaraeon *Sports Club*						
Blwyddyn 5 a 6 *Years 5 and 6*	17.01.24	24.01.24	31.03.24	07.02.24	21.02.24	28.02.24
	06.03.24	13.03.24				
Mrs Jenkins & Mr Jones						

Clwb Creadigol *Creative Club*					
Blwyddyn 1 *Year 1*	17.01.24	31.01.24	21.02.24	06.03.24	
Blwyddyn 2 *Year 2*	24.01.24	07.02.24	28.02.24	13.03.24	
Mrs Burrows & Mrs Smith					

Adran yr Urdd *Urdd Club*			
Blwyddyn 3 a 4 *Year 3 & 4*	18.01.24	22.02.24	
Blwyddyn 5 a 6 *Year 5 & 6*	01.02.24	07.03.24	
Miss Jones & Mr O'Neil			

Côr *Choir*						
Blwyddyn 3 i 6 *Year 3 to 6*	16.01.24	23.01.24	30.01.24	06.02.24	20.02.24	27.02.24
	05.03.24	12.03.24				
Mrs Morrish & Miss Williams						

Clwb Posau *Puzzle Club*						
Blwyddyn 3 a 4 *Year 3 and 4*	17.01.24	24.01.24	31.03.24	07.02.24	21.02.24	28.02.24
	06.03.24	13.03.24				
Mrs Flower & Mr Jones						

Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**